

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 30 January 2017 at 7.10 pm**

**PRESENT :-** His Worship the Mayor, Councillor Dewi Williams  
The Deputy Mayor, Councillor D Hainge  
Councillors :- Mrs J Marshall (Chairman) Mrs J Forsyth Mrs J Marshall  
Mrs S Ashworth John Wynn Jones R K Marshall  
Mrs D Bulled Colin King J M Martin  
Mrs L Day D Llewelyn N Pickavance

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

**160/16 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Mrs E Butler, Doug Madge, Mair Rowlands, G O Roberts and E H Williams.

**161/16 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None.

**162/16 URGENT BUSINESS**

None.

**163/16 SECTION 137 APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE**

The Town Clerk reported details of the requests for financial assistance that had been received:  
**RESOLVED** that the following organisation be granted the sum of £100.00 each:-

- a) Y Goriad
- b) Glanadda Penioners Club
- c) Bangor Civic Society
- d) Bangor Links St. Johns Ambulance
- e) Bangor Gymnastics Club

Declaration of interest by Councillor J W Jones , L Day, J Martin J Marshall and K Marshall who left the Meeting during the discussion and decision on these matters.

**164/16 CITY CENTRE PARTNERSHIP UPDATE (CCP)**

The Town Clerk reported that the final documents had been prepared under the Partnership Scheme. These were the strategy document, the action plan and the terms of reference for the Partnership Board. These would soon be publicly available.

The Town Clerk also reported that the first Bangor Strategic Partnership Board Meeting would be held on Friday 10th February and the Council would be represented by the Mayor, Deputy Mayor the Chair of the Management Group John Wynn Jones and the Town Clerk.

**165/16 TOWN CLERK’S REPORT – BUDGET FOR 2017/2018**

The Town Clerk presented the budget report and responded to questions by Members on the various headings as follows :-

**1) Review of Council Prices and Charges**

**RESOLVED:-**

- (i) to approve the prices in the Penrhyn Hall as indicated in the Town Clerk’s Report with the exception of a reduction for local groups and charities, £25, £33 and £42 for 1, 2 and 3 sessions;
- (ii) to increase annual rental charges for the Pier Kiosks as set out in the Report;
- (iii) that the Pier entrance prices should remain the same; and
- (iv) to implement the 2016 increase the car park price as indicated in the report;

**2) Works at the Pier**

Members noted the current position with regards to the capital works to be undertaken. Day to day management and maintenance issues were discussed and it was noted that a new policy was required on memorial benches & plaques – as these had been stopped.

In accordance with the Internal Auditor's advice, it was **RESOLVED** to reaffirm that the greater part of the Council's Capital Reserve would be used for Pier Renovation works.

**3) Other Property Matters**

Members noted the Town Clerk's concern at the coastal erosion that was threatening the boundary wall at the Pier Master's house and that works would be undertaken to address this.

**4) Penrhyn Hall**

Members noted the works at Penrhyn Hall, including kitchen refurbishments, and installation of audio-visual equipment in the Hall further docor work was required. It was noted that the Mayor's Parlour had been decorated but needed further updating.

**5) Woodland Maintenance.**

Members noted the concern regarding the condition of the two areas of woodland in the Council's ownership – Menai Woods and Penrhyn Arms Woods – and that work needed to be carried out over the course of the next 2/3 years to make the areas safe.

**6) Council Offices**

The Town Clerk reported various maintenance issues to be addressed including a collapsed sewer. The Town Clerk's report highlighted the concern expressed about the laack of a One Stop Shop, as Llys Gwynedd was now on limited opening hours.

**RESOLVED** that the Town Clerk write to the Chief Executive at Gwynedd Council to request a One-Stop Shop in Bangor to deal with the multitude of enquiries which were now coming to the City Council's Office.

**7) Open Spaces and Play Areas.**

The current situation was noted and the Town Clerk was asked to look at the arrangements regarding the Ashley Jones Field tenancy.

**8) Town Centre Regeneration Issues**

It was noted that the City Centre Partnership funding was due to come to an end on 31 March 2017. Members were informed that funds had been set aside for the Bangor Branding Partnership Project.

**9) Gwynedd Services**

Members discussed the current situations with regard to devolved services, transfer of assets and dthe possibility of the City Council investing in these areas.

**RESOLVED** that a reserve fund of approximately £20,000 be set aside for contingency in this area.

**10) Staffing**

It was noted that the two temporary workers contracts would end soon. The Town Clerk wished to discuss with Members the future staffing requirements – particularly with regard to the Pier Restoration Project.

**RESOLVED** that the Staffing Panel be convened soon to discuss these issues.

Membership of the Staffing Panel was confirmed as Councillor John Wynn Jones (Chair), Derek Hainge, Mayor and Deputy Mayor, Chairman and Vice-Chairman of Finance and General Purposes Committee and Planning & Amenities Committee.

**166/16 APPOINTMENT of AN INTERNAL AUDITOR for 2016/17**

The Town Clerk reported that it was a regulation to formally appoint an Internal Auditor for the Council. The Internal Auditor for the last few years had been Mr John Dryhurst Roberts who in the Town Clerk's opinion had done an excellent job and he was subsequently recommended to continue for 2016/17.

**RESOLVED** that Mr John Roberts be appointed as the City Councils Internal Auditor for the year 2016/2017.

**167/16 INVOICES FOR PAYMENT**

It was reported that the invoices as detailed on the schedule totalling £20,003.39 had been approved. The invoices were available for any Member to see if necessary. **RESOLVED** that the payments be noted.

**168/16 FINANCE - Third Quarter Accounts 2016/17**

The Town Clerk presented the third quarter accounts for information and comment, it was noted that this would be the last report of the current financial year prior to the final accounts which would be detailed from 1<sup>st</sup> April.

**RESOLVED** to receive and approve the Accounts as set out in the report.

**169/16 RISK ASSESSMENT REVIEW & CONTROL OF FINANCIAL SYSTEM**

The Town Clerk presented the above document, which had been forwarded to Members, who considered its contents.

After questions and discussion it was **RESOLVED** to approve the Risk Assessment Review and the Review of Effectiveness of Internal Control System as presented in the document.

**170/16 ESTIMATES OF INCOME & EXPENDITURE**

The Town Clerk presented the detailed schedule of Estimates for 2017/2018

The Budget was reviewed page by page and the Town Clerk explained the figures set out under the various headings, highlighting the major items of expenditure necessary in the coming financial year.

**RESOLVED** to accept all the recommendations contained in the schedule of Budget Estimates with the addition of a contingency fund of approx. £20,000 for Service Provision and to combine the Grants budget and contributions to other organisations.

**171/16 PRECEPT 2017/2018**

It was **RESOLVED** that the recommendations contained in the Town Clerk's Budget Estimates regarding the precept be approved subject to: -

- 1) any Capital Expenditure be funded from the Capital Reserve Account;
- 2) any under-spend from 2016/17 be allocated to Capital Reserves for the Pier and a new contingency fund for Services; and
- 3) the Precept for 2017/2018 be £356,683.00.

---

The Meeting finished at 8.30pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, nos Lun 30 o Ionawr 2017 am 7.10 y.h.

**PRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Dewi Williams

Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd D Hainge

Cynghorwyr :-	Mrs J Marshall (Cadeirydd)	Mrs J Forsyth	Mrs J Marshall
	Mrs S Ashworth	John Wynn Jones	R K Marshall
	Mrs D Bulled	Colin King	J M Martin
	Mrs L Day	D Llewelyn	N Pickavance

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

#### 160/16 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs E Butler, Doug Madge, Mair Rowlands, G O Roberts ac E H Williams.

#### 161/16 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

#### 162/16 MATERION BRYD

Dim.

#### 163/16 ADRAN 137 CEISIADAU AM RODDION ARIANNOL

Adroddodd Clerc y Dref fanylion y ceisiadau a dderbyniwyd am gymorth ariannol:

**PENDERFYNWYD** rhoi'r swm o £100.00 yr un i'r mudiadau canlynol:-

- Y Goriad
- Clwb Pensiynwyr Glanadda
- Cymdeithas Ddinesig Bangor
- Cyswllt Bangor Ambiwlans Sant Ioan
- Clwb Gymnasteg Bangor

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan y Cynghorwyr J W Jones, L Day, J Martin, J Marshall a K Marshall a adawodd y Cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar y materion hyn.

#### 164/16 DIWEDDARIAD PARTNERIAETH CANOL Y DDINAS

Adroddodd Clerc y Dref fod y dogfennau terfynol wedi cael eu paratoi o dan y Cynllun Partneriaeth. Y rhain oedd y ddogfen strategaeth, y cynllun gweithredu a'r Cylch Gorchwyl i Fwrdd y Bartneriaeth. Byddai'r rhain ar gael i'r cyhoedd gyda hyn.

Adroddodd Clerc y Dref hefyd y byddai Cyfarfod Bwrdd cyntaf Partneriaeth Strategol Bangor yn cael ei gynnal ddydd Gwener 10 Chwefror ac y byddai'r Cyngor yn cael ei gynrychioli gan y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeirydd y Grŵp Rheoli John Wynn Jones a Chlerc y Dref.

#### 165/16 ADRODDIAD CLERC Y DREF – CYLLIDEB 2017/2018

##### 1) Adolygiad o Brisiau'r Cyngor

**PENDERFYNWYD :-**

- codi prisiau llogi Neuadd y Penrhyn fel ag y dangosir yn Adroddiad Clerc y Dref, ac eithrio gostyngiad i grwpiau ac elusennau lleol, £25, £33 a £42 i 1, 2 a 3 sesiwn.
- codi prisiau rhent blynyddol Ciosgau'r Pier fel ag y'u gosodwyd allan yn yr Adroddiad.
- y dylai prisiau mynediad i'r Pier aros yr un fath; a
- gweithredu cynnydd 2016 ym mhris y maes parcio fel ag y nodir yn yr adroddiad;

##### 2) Gwaith Cyfalaf ar y Pier

Nododd yr aelodau y sefyllfa bresennol o ran y gwaith cyfalaf sydd i gael ei wneud. Trafodwyd materion rheoli a chynnal a chadw o ddydd i ddydd a nodwyd fod angen polisi newydd ar feinciau a phlaciau er cof - gan fod y rhai wedi cael eu stopio.

Yn unol â chyngor yr Archwilydd Mewnol. **PENDERFYNWYD** ailddatgan y byddai rhan fwyaf Arian Cyfalaf Wrth Gefn y Cyngor yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith Adfer y Pier.

### 3) Materion Eiddo Eraill

Nododd yr Aelodau bryder Clerc y Dref fod erydiad arfordirol yn bygwth y wal derfyn yn nhŷ'r Pier Feistr ac y byddai gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn.

### 4) Neuadd y Penrhyn

Trafodwyd y gwaith yn Neuadd y Penrhyn, yn cynnwys adnewyddu'r gegin, a gosod offer clyweledol yn y Neuadd. Roedd angen mwy o waith addurno hefyd. Nodwyd fod Parlwr y Maer wedi cael ei addurno ond fod angen ei ddiweddarau eto.

### 5) Cynnal Coedwigoedd

Nododd yr aelodau'r pryder am gyflwr dwy ardal o goetir ym mherchnogaeth y Cyngor - Coed Menai a Choed Penrhyn Arms - roedd angen gwneud gwaith ar y rhain dros y 2/3 blynedd nesaf i wneud yr ardaloedd yn ddiogel.

### 6) Swyddfeydd y Cyngor

Adroddodd Clerc y Dref am amryw o faterion cynnal a chadw a oedd angen sylw yn cynnwys carthffos oedd wedi cwmpo. Yn ei adroddiad tynnodd Clerc y Dref sylw at y pryder am ddiffyg Siop Un Stop, gan fod Llys Gwynedd bellach ar agor am oriau cyfyngedig.

### 7) Ardaloedd agored a Mannau Chwarae Plant.

Nodwyd y sefyllfa bresennol a gofynnwyd i Glerc y Dref edrych ar y trefniadau ynghylch tenantiaeth Cae Ashley Jones.

### 8) Canol y Ddinas

Nodwyd fod cyllid Partneriaeth Canol y Ddinas i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth 2017. Hysbyswyd yr aelodau fod arian wedi'i neilltuo ar gyfer Prosiect y Bartneriaeth i Frandio Bangor.

### 9) Gwasanaethau Gwynedd

Trafododd yr aelodau y sefyllfa gyfredol o ran gwasanaethau i'w datganoli, trosglwyddo asedau a'r posibilrwydd y gallai Cyngor y Ddinas fuddsoddi yn y meysydd hyn.

**PENDERFYNWYD** neilltuo cronfa wrth gefn o tua £20,000 ar gyfer gwaith posibl yn y maes hwn.

### 10) Staffio

Nodwyd y byddai contractau'r ddau weithiwr dros dro yn dod i ben cyn hir. Roedd Clerc y Dref yn dymuno trafod gofynion staffio i'r dyfodol gyda'r aelodau – yn arbennig o safbwynt Gwaith Adfer y Pier.

**PENDERFYNWYD** cynnal Panel Staffio yn fuan i drafod y materion hyn.

Cadarnhawyd mai aelodau'r Panel Staffio yw'r Cynghorwyr John Wynn Jones (Cadeirydd), Derek Hainge, Y Maer a'r Dirprwy Faer, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol a'r Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau.

## 166/16 PENODI ARCHWILYDD MEWNOL AM 2016/17

Adroddodd Clerc y Dref fod y rheoliadau'n mynnu fod Archwilydd Mewnol i'r Cyngor yn cael ei benodi'n ffurfiol. Yr Archwilydd Mewnol yn y blynyddoedd diwethaf oedd Mr John Dryhurst Roberts. Ym marn Clerc y Dref roedd ef wedi gwneud gwaith ardderchog ac argymhellwyd ei fod yn parhau yn 2016/17.

**PENDERFYNWYD** penodi Mr John Roberts yn Archwilydd Mewnol i Gyngor y Ddinas am y flwyddyn 2016/2017.

## 167/16 ANFONEBAU I'W TALU

Adroddwyd fod yr anfonebau fel ag y manylwyd arnynt ar y rhestr wedi eu cymeradwyo a'u bod yn dod i gyfanswm o £20,003.39. Roedd yr anfonebau ar gael i unrhyw Aelod eu gweld os oedd angen. **PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau.

**168/16 CYLLID - Cyfrifon Trydydd Chwarter 2016/17**

Cyflwynodd Clerc y Dref gyfrifon y trydydd chwarter er gwybodaeth ac i dderbyn sylwadau, nodwyd mai hwn fyddai adroddiad olaf y flwyddyn ariannol gyfredol cyn y cyfrifon terfynol a fyddai'n cael eu rhestru o 1 Ebrill.

**169/16 ADOLYGIAD ASESIAD RISG A RHEOLI SYSTEM CYLLID**

Cyflwynodd Clerc y Dref y ddogfen uchod, a oedd wedi'i hanfon ymlaen llaw i'r aelodau ac ystyriwyd y cynnwys.

Yn dilyn cwestiynau a thrafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Adolygiad Asesiad Risg ac Adolygiad Effeithiolrwydd y System Rheolaeth Fewnol fel ag y'u cyflwynwyd yn y ddogfen.

**170/16 AMCANGYFRIF INCWM A GWARIANT**

Cyflwynodd Clerc y Dref y rhestr fanwl o Amcangyfrifon ar gyfer 2017/2018

Adolygwyd y Gyllideb fesul tudalen ac eglurodd Clerc y Dref y ffigyrau a oedd wedi'u gosod o dan yr amrywiol benawdau, gan dynnu sylw at y prif eitemau o wariant a oedd eu hangen yn y flwyddyn ariannol sy'n dod.

**PENDERFYNWYD** derbyn pob un o'r argymhellion yn y rhestr o Amcangyfrifon y Gyllideb gan ychwanegu cronfa wrth gefn o tua £20,000 ar gyfer Darparu Gwasanaethau, a chyfuno'r gyllideb Grantiau a'r cyfraniadau i gyrff eraill.

**171/16 PRAESEPT 2017/18**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhellion yn Amcangyfrifon Cyllideb Clerc y Dref am y praesept yn amodol ar y canlynol:-

- 1) fod unrhyw Wariant Cyfalaf yn dod o'r Cyfrif Cyfalaf Wrth Gefn;
- 2) fod unrhyw danwariant o 2016/2017 yn cael ei neilltuo o'r Arian Cyfalaf Wrth Gefn i'r Pier a'r gronfa newydd wrth gefn ar gyfer Gwasanaethau;
- 3) a bod Praesept 2017/2018 yn £356,683.00.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm